# Ymgynghoriad ar ganllawiau polisi ar erlyn troseddau yn erbyn pobl hyn

Gwasanaeth Erlyn y Goron
cps.gov.uk

# Canllawiau polisi ar erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn

## Polisi Gwasanaeth Erlyn y Goron

Rydym yn cydnabod bod pobl hŷn yn cael eu targedu'n aml iawn oherwydd eu hoedran a'r ffaith fod pobl eraill yn ystyried eu bod yn agored i niwed. Gall hyn gael effaith niweidiol iawn ar y dioddefwr am fod rhywun yn eu targedu oherwydd nodwedd bersonol. Er nad oes diffiniad statudol o droseddau yn erbyn pobl hŷn, na deddfwriaeth sy'n caniatáu i ddedfryd am drosedd o'r fath gael ei chynyddu fel y gwneir gydag achosion o droseddau casineb, rydym yn ymrwymo i sicrhau bod bobl hŷn yn derbyn cyfiawnder drwy erlyn troseddau yn eu herbyn a chefnogi'r dioddefwyr a'r tystion drwy gydol y broses honno.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut yr ydym yn ymdrin â throseddau yn erbyn pobl hŷn a sut yr ydym yn cefnogi pobl hŷn sy'n ddioddefwyr ac yn dystion i drosedd.

Ein polisi yw:

- Canfod troseddau sy'n targedu pobl hŷn mor gynnar ag sy'n bosibl.
- Canfod agweddau sy'n croestorri gydag, er enghraifft, droseddau casineb neu drais yn erbyn menywod a merched (VAWG).
- Adeiladu achosion cryf gyda'n partneriaid sy'n bodloni'r profion o fewn y Cod i Erlynwyr y Goron.
- Cefnogi dioddefwyr a thystion i roi eu tystiolaeth orau.
- Gwahodd llysoedd i gynyddu'r ddedfryd am droseddau yn erbyn pobl hŷn ar sail y ffaith fod pobl eraill yn eu targedu fel pobl agored i niwed a bod hyn yn ffactor sy'n gwaethygu difrifoldeb y drosedd.
- Gweithio'n agos â'r heddlu, asiantaethau cyfiawnder troseddol, academyddion, rhanddeiliaid cymunedol a chyrff eraill i adfywio ein dealltwriaeth drwy'r amser o droseddau yn erbyn pobl hŷn a gwella ein hymateb iddynt.
- Gwella ymwybyddiaeth pobl o droseddau yn erbyn pobl hŷn a gwella hyder y cyhoedd i roi gwybod am droseddau o'r fath.
- Monitro gweithrediad y polisi hwn.

Pan gyflwynir achosion i ni sy'n ymwneud â phobl hŷn, byddwn yn ymwybodol bod:

- Troseddau yn erbyn pobl hŷn yn gallu bod yn seiliedig ar ragfarn ar sail oedran neu ragfarn yn erbyn pobl hŷn .
- Mae'r gred ystrydebol fod pobl hŷn fel grŵp yn gynhenid wan, agored i niwed ac yn dargedau hawdd yn agwedd sy'n cymell rhai troseddau yn erbyn pobl hŷn.
- Mae gan bobl hŷn sydd â dementia, galluedd oriog a/neu gyflyrau eraill sy'n gysylltiedig ag oedran yr un hawliau â phob dioddefwr a thyst arall i dderbyn gwasanaeth cyfartal a hygyrch. Ni fyddwn yn gwneud tybiaethau ynglŷn â pha mor gredadwy neu ddibynadwy yw dioddefwr sydd â galluedd oriog.

Wrth benderfynu a ydyw er lles y cyhoedd i erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn, mae'n rhaid i'n herlynwyr ystyried y Cod i Erlynwyr y Goron. Mae'r Cod yn nodi hyn: lle cafodd y drosedd ei chymell gan unrhyw fath o wahaniaethu, gan gynnwys gwahaniaethu ar sail oedran y dioddefwr neu os oedd yr un a ddrwgdybir wedi dangos gelyniaeth tuag at y dioddefwr ar

sail eu hoedran, bydd unrhyw elyniaeth neu gymhelliant o'r fath yn golygu ei bod hi'n fwy tebygol y bydd angen erlyniad.

Mae ffactorau eraill sy'n berthnasol i les y cyhoedd yn cynnwys sefyllfa lle:

- mae'r diffynnydd mewn safle o awdurdod a/neu ymddiriedaeth yn nhermau eu perthynas gyda'r dioddefwr;
- parhaodd y drosedd neu cafodd y drosedd ei hailadrodd dros gyfnod o amser, neu mae achos i gredu bod y drosedd yn debygol o gael ei hailadrodd neu o barhau;
- mae'r dioddefwr yn 'agored i niwed' neu roedd y diffynnydd yn ystyried bod y dioddefwr yn 'agored i niwed';
- mae'r dioddefwr wedi cael anaf;
- mae'r diffynnydd yn defnyddio arf;
- mae'r diffynnydd wedi gwneud bygythiadau cyn neu ar ôl yr ymosodiad;
- roedd y diffynnydd wedi cynllunio'r ymosodiad;
- mae bygythiad parhaus i iechyd a diogelwch y dioddefwr neu unrhyw un arall sy'n rhan o'r sefyllfa, neu a allai ddod yn rhan o'r sefyllfa; ac
- mae gan y diffynnydd hanes o droseddu, yn arbennig unrhyw euogfarnau am droseddau yn erbyn pobl hŷn.

Os cyflawnir y prawf tystiolaethol mewn achosion o gamdriniaeth neu esgeulustod bwriadol, bydd diddordeb y cyhoedd bron bob amser o blaid erlyniad, oherwydd y safle o ymddiriedaeth oedd gan y sawl a ddrwgdybir mewn perthynas â'r dioddefwr, yn ogystal â'r ffaith fod y dioddefwr yn eithriadol agored i niwed yn y sefyllfa hon.

Mae angen i erlynwyr hefyd ystyried a yw erlyniad yn debygol o gael effaith niweidiol ar iechyd meddwl neu gorfforol y dioddefwr, gan gofio bob amser mor ddifrifol yw'r drosedd. Os oes tystiolaeth i ddangos bod erlyniad yn debygol o gael effaith niweidiol ar iechyd y dioddefwr, gallai wneud erlyniad yn llai tebygol, gan roi ystyriaeth i farn y dioddefwr.

**Cwestiwn 1**

A yw'r adran am *'Bolisi Gwasanaeth Erlyn y Goron'* yn ymdrin â'r materion allweddol wrth erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn ac a ydyw'n rhoi esboniad clir o'r ffactorau lles y cyhoedd sydd i gael eu hystyried gan erlynwyr?

## Troseddau wedi eu Monitro yn erbyn Pobl Hŷn

Nid oes diffiniad statudol o drosedd yn erbyn person hŷn.Nid oes consensws chwaith ar draws sefydliadau'r Llywodraeth neu bartneriaid trydydd sector ynglŷn â pha gyfyngiad oedran sy'n diffinio pobl hŷn neu berson hŷn.Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn awgrymu mai 60 neu 65 yw'r oedrannau a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin mewn gwledydd datblygedig. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn diffinio person hŷn fel 'rhywun 68 oed neu'n hŷn' yn unol â'r oedran ymddeol presennol. Rydym yn cydnabod, fel y dwed Sefydliad Iechyd y Byd, bod gosod cyfyngiad oedran yn beth mympwyol ac felly rydym wedi ychwanegu diffiniad fflagio at hyn sydd â'r nod o sicrhau ein bod yn adnabod, yn fflagio ac yn monitro'r achosion priodol:

*‘Lle mae'r dioddefwr yn 68 neu'n hŷn, unrhyw ddigwyddiad/trosedd a ystyrir gan y dioddefwr neu unrhyw berson arall, yn un a weithredwyd* ***oherwydd*** *y ffaith fod y dioddefwr yn agored i niwed o ganlyniad i'w h/oedran neu y tybiwyd bod y dioddefwr yn agored i niwed oherwydd ei h/oedran’.*

Nid yw pob person hŷn yn agored i niwed. Drwy greu diffiniad fflagio sy'n cydnabod y realiti hwn, byddwn yn fflagio ac yn monitro achosion lle mae'r troseddwr yn dewis neu'n cymryd mantais o ddioddefwr am eu bod yn ystyried y dioddefwr yn agored i niwed, neu'n darged hawdd, oherwydd eu h/oedran.

Mae ymchwil academaidd i gefnogi'r dull yma. Roedd adroddiad Prifysgol Sussex ar Drosedd Casineb a'r Broses Gyfreithiol yn argymell diffiniad 'drwy reswm' o droseddau sy'n targedu pobl ar sail nodwedd warchodedig. Mae'r adroddiad yn nodi fel yma, 'mae targedu unigolyn yn fwriadol ar sail ei nodwedd warchodedig yn dystiolaeth, ynddi'i hun ac ohoni ei hun, o ragfarn a gwahaniaethu'[1] Felly rydym wedi mabwysiadu'r dull yma mewn perthynas â'n proses fflagio ninnau i ganfod troseddau yn erbyn pobl hŷn.

Mae'n bwysig bod digwyddiadau perthnasol yn cael eu pennu'n droseddau yn erbyn pobl hŷn mor fuan ag sy'n bosibl. Bydd hyn yn helpu'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i ddarparu cefnogaeth briodol i'r dioddefwr neu'r tyst ac i gael y dystiolaeth orau i'w chyflwyno yn y llys.

Unwaith mae achos wedi'i fflagio fel trosedd yn erbyn person hŷn, mae'n bolisi gan Wasanaeth Erlyn y Goron i beidio tynnu'r fflag am unrhyw reswm heblaw os bu gwall gweinyddol. Mae hyn yn arwydd o ymrwymiad Gwasanaeth Erlyn y Goron i drin pob trosedd o'r fath yn ddifrifol ac i dderbyn safbwynt y dioddefwr.

**Cwestiwn 2**

A yw'r adran *‘Troseddau sy'n cael eu monitro yn erbyn pobl hŷn’* yn rhoi esboniad clir o'r mathau o achosion y mae Gwasanaeth Erlyn y Goron eisiau eu fflagio a'u monitro? Ydych chi'n credu y bydd y diffiniad yma o fflagio'n tynnu sylw at yr achosion perthnasol? A yw'r cyfyngiad oedran yn briodol?

## Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer troseddau yn erbyn pobl hŷn

Mae amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth y gellir eu defnyddio i erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn. Mae canllawiau cyfreithiol Gwasanaeth Erlyn y Goron yn rhoi gwybodaeth fanwl am y ddeddfwriaeth berthnasol yn ogystal â dolenni at feysydd eraill megis troseddau casineb, twyll, cam-drin domestig a gorfodaeth a rheolaeth.

Dylai'r cyhuddiadau a ddewiswn mewn unrhyw erlyniad adlewyrchu'r elfennau hyn bob amser: difrifoldeb yr amgylchiadau, unrhyw elfen o ragfwriad neu ddyfalbarhad yn ymddygiad y diffynnydd, bwriad y diffynnydd y mae modd ei brofi a difrifoldeb unrhyw anaf a ddioddefwyd gan y dioddefwr. Mae'n rhaid i'r cyhuddiadau ein helpu i gyflwyno'r achos yn glir ac yn syml ac mae'n rhaid iddynt roi'r grym i'r llys osod y ddedfryd gywir.

[1] Hate Crime and the Legal Process – Options for Law Reform, Walters, Wiedlitzka, Owusu-Bempah a Goodall, Prifysgol Sussex, Hydref 2017.

## Ymddygiad troseddol

Gellir cael nifer o wahanol fathau o droseddau yn erbyn pobl hŷn gan gynnwys esgeulustod, cam-drin ariannol a thwyll, cam-drin geiriol, ymosodiad corfforol a rhywiol, bygythiadau, lladrad, dwyn a difrod troseddol. Gall troseddau yn erbyn pobl hŷn gael eu cyflawni ar-lein neu all-lein neu dros y ffôn drwy alwadau diwahoddiad neu gellir gweld patrwm sy'n cynnwys rhai neu bob un o'r ymddygiadau yma.

Gall y digwyddiadau fod yn rhai unwaith yn unig neu fod yn rhan o gyfres o droseddau sydd wedi eu targedu ac sy'n cael eu hailadrodd. Gall pobl hŷn ddioddef trosedd nid yn unig yn eu cartrefi eu hunain ond mewn mannau eraill, er enghraifft, mewn cartrefi nyrsio, cartrefi gofal preswyl, ysbytai ac mewn mannau cyhoeddus.

Rydym yn cydnabod bod troseddau yn erbyn pobl hŷn yn gallu digwydd mewn cyd-destun o gamdriniaeth a difrïo sy'n cynnwys partner, aelod o'r teulu, cyfaill agos neu weithiwr gofal.

Rydym yn cydnabod bod pobl hŷn yn gallu cael eu targedu am gyfuniad o resymau, yn cynnwys cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth drawsryweddol, hil, crefydd ac anabledd. Bydd targedu rhywun ar sail y nodweddion hyn yn gyfystyr â throsedd casineb a bydd hyn yn gwneud y drosedd yn gymwys i ofyn dedfryd uwch.Bydd erlynwyr yn ystyried y cyhuddiadau mwyaf priodol ac yn gwneud cais i'r llysoedd am gynnydd priodol yn y ddedfryd, ar sail yr holl nodweddion perthasol sy'n gwneud y drosedd yn waeth.Gwelwch y dudalen ar drosedd casineb ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron i gael rhagor o wybodaeth.

## Pa mor agored i niwed yw dioddefwyr hŷn

Rydym yn cydnabod bod amgylchiadau pobl hŷn yn amrywio a bob llawer o bobl hŷn nad ydynt yn fregus, yn agored i niwed neu angen cefnogaeth mewn unrhyw ffordd.Ond, bydd eraill yn dibynnu ar gefnogaeth i ymdrin â'u problemau a bydd maint y cymorth y maent ei angen yn wahanol yn dibynnu ar eu hamgylchiadau unigol. Mae troseddwyr yn gallu targedu'r bobl hŷn yma am eu bod yn gweld neu'n tybied eu bod yn agored i niwed a/neu'n fregus oherwydd eu hoedran.

Rydym yn ofalus bod angen osgoi gwneud beirniadaethau gwallus am gredadwyedd neu ddibynadwyedd person hŷn fel tyst sy'n rhoi tystiolaeth yn y llys.Gallai beirniadaeth o'r fath arwain at benderfyniad anghywir ynghylch y cyhuddiad neu gallai danseilio llwyddiant posibl yr erlyniad.

O ganlyniad, byddwn yn:

- Peidio gwneud rhagdybiaethau am ddibynadwyedd neu gredadwyedd tyst sy'n hŷn, a herio eraill sy'n gwneud hynny
- Sicrhau bod pobl hŷn yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt i'w helpu i roi eu tystiolaeth orau
- Adolygu a monitro galluedd yn rheolaidd a chydnabod bod angen i gefnogaeth amrywio i gyd-fynd â hynny

- Bod yn fwy tebygol o erlyn achosion lle mae'r drosedd wedi'i chymell gan unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn oedran person, pan fydd digon o dystiolaeth i wneud hynny
- Cadw mewn cof bod iaith yn bwysig a dim ond defnyddio'r term 'agored i niwed' mewn perthynas â phobl hŷn pan fo'n briodol yng nghyd-destun y gyfraith a ffeithiau'r achos
- Cydnabod y ffaith fod y gred ystrydebol bod pobl hŷn yn 'agored i niwed' yn gallu bod yn ffactor sy'n cymell pobl i droseddu yn eu herbyn.

**Cwestiwn 3**

A yw'r adrannau am *'Ymddygiad troseddol'* a *'Pha mor agored i niwed yw dioddefwyr hŷn'* yn adlewyrchu ac yn ymdrin â'r mathau o droseddau y gall pobl hŷn eu dioddef a'r amrywiaeth yn amgylchiadau pobl hŷn?

## Adrodd am droseddau yn erbyn pobl hŷn

Mae'n bwysig rhoi gwybod i'r heddlu am unrhyw drosedd yn erbyn pobl hŷn. Mae'n hynod o werthfawr hefyd rhoi gwybod i'r heddlu am unrhyw ymddygiad blaenorol neu batrymau o ymddygiad sy'n gysylltiedig â'r un dioddefwr neu'r un sy'n cyflawni'r drosedd, fel bod modd cymryd yr holl amgylchiadau i ystyriaeth yn briodol.

Cyfrifoldeb yr heddlu yw hi i ymchwilio'r digwyddiad a chasglu tystiolaeth yn ymwneud â'r cwestiwn 'a oes trosedd wedi digwydd?'. Os oes trosedd wedi digwydd, mae ymchwilydd yr heddlu'n gyfrifol am gasglu tystiolaeth o safon uchel i gefnogi erlyniad.Bydd yr heddlu'n gweithio'n agos â strwythurau diogelu oedolion lleol.

Mae rhoi gwybod am drosedd, rhoi datganiad a chael eich galw i roi tystiolaeth yn y llys yn gallu bod yn brofiadau brawychus i unrhyw un.Rydym yn cydnabod bod pobl hŷn yn gallu wynebu rhwystrau penodol yn y cyswllt hwn.Gall y rhwystrau yma gynnwys ofni cael eu symud o'u cartref, amharodrwydd i gyhuddo aelod o'u teulu o ymddygiad troseddol, dibyniaeth ar y person sy'n eu cam-drin a'r risg o gynyddu eu hunigrwydd.

## Ymchwiliad troseddol

Byddwn yn chwilio am ragor o dystiolaeth lle bo raid gan yr heddlu i ganfod a gafodd rhywun ei dargedu/ei thargedu o bosib am fod y troseddwr yn gweld neu'n tybio eu bod yn agored i niwed oherwydd eu hoedran.  Byddwn yn cyflwyno'r dystiolaeth hon i'r llys fel ffactor sy'n cynyddu difrifoldeb y drosedd.

Mewn rhai achosion, efallai y byddwn yn cynghori'r heddlu i ddilyn llinellau ymholi posibl eraill. Gallai hyn gynnwys edrych ar ddigwyddiadau yr adroddwyd amdanynt yn y gorffennol sy'n ymwneud â'r un unigolyn, neu â'r un person a ddrwgdybir. Gallai hefyd gynnwys chwilio am wybodaeth neu dystiolaeth gan aelodau o'r teulu, neu gan asiantaethau megis y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r GIG.

## Penderfyniadau ynglŷn â chyhuddo

Wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â chyhuddo mewn achosion o droseddau yn erbyn pobl hŷn, fel ymhob achos, mae'n rhaid i erlynwyr weithredu'r Cod i Erlynwyr y Goron.

## Mechnïaeth

Os oes risg o berygl, bygythiad neu ailadrodd troseddau, byddwn yn ceisio diogelu achwynwyr a thystion drwy wneud cais i'r llys i gadw'r diffynnydd ar remand yn y carchar lle bo'n briodol, neu drwy ofyn i'r llys osod amodau ar y fechnïaeth lle bo'n bosibl (er enghraifft, peidio mynd at unrhyw unigolyn a enwir neu gadw allan o ardal benodol).

## Erlyn a dedfrydu

Byddwn yn cyflwyno tystiolaeth o'r holl ffactorau a allai wneud y drosedd a'r ddedfryd yn fwy difrifol. Bydd hyn yn cynnwys sefyllfa lle cafodd y dioddefwyr eu targedu am fod y troseddwyr yn gweld neu'n tybied eu bod yn agored i niwed oherwydd eu hoedran.Tynnir sylw'r llys at effaith y drosedd ar y dioddefwr a thystiolaeth o unrhyw niwed a achoswyd iddynt fel ffactorau sy'n cynyddu difrifoldeb y drosedd.

Er nad oes deddfwriaeth droseddol benodol yn ymwneud â phobl hŷn fel dioddefwyr, mae canllawiau dedfrydu'n gofyn bod llysoedd yn cynyddu'r ddedfryd am droseddau yn erbyn pobl hŷn sydd wedi cael eu targedu am eu bod yn agored i niwed oherwydd eu hoedran.

Byddwn yn tynnu sylw'r llys at Ddatganiad Personol y Dioddefwr (VPS), sy'n rhoi cyfle i ddioddefwyr ddisgrifio effeithiau'r drosedd arnynt, mynegi eu pryderon a dangos a oes angen unrhyw gefnogaeth arnynt ai peidio. Mae gwneud Datganiad Personol y Dioddefwr yn broses hollol ddewisol. Mae hawl gan ddioddefwyr ddewis a hoffent ddarllen eu VPS (Datganiad Personol y Dioddefwr) yn uchel yn y llys, a hoffent i rywun arall ei ddarllen yn uchel neu a ddylai gael ei chwarae (os ydyw wedi cael ei recordio). Gellid gwneud Datganiad o Effaith Cymunedol hefyd i ddangos effaith troseddu ar y gymuned ehangach, gan gynnwys sefyllfa lle mae troseddwr wedi targedu nifer o unigolion am ei fod/bod yn gweld neu'n tybio eu bod yn agored i niwed oherwydd eu hoedran.

Mae gennym gyfrifoldeb i helpu'r llys i ddedfrydu. Bydd erlynwyr yn gwneud cais am archebion ategol neu ychwanegol priodol, gan gynnwys gorchmynion atal ac iawndal am golled, anaf neu niwed. Byddwn bob amser yn ystyried anghenion y dioddefwr, gan gynnwys eu hangen am gael eu diogelu yn y dyfodol.

Mae gan y llys ddyletswydd i roi rhesymau am y ddedfryd y mae'n ei gosod ac i esbonio effaith y ddedfryd honno.

## Tynnu'n ôl

Weithiau bydd achwynydd yn gofyn i'r heddlu beidio bwrw ymlaen ymhellach gyda'r achos neu bydd yn gofyn am gael diddymu'r gŵyn.Byddwn yn ystyried beth fydd yr effaith os na fyddent yn bwrw ymlaen, gan gynnwys y risg o niwed pellach iddyn nhw eu hunain, ond nid yw hyn yn golygu o anghenraid y bydd yr achos yn cael ei stopio'n awtomatig.Gan weithredu'r Cod i Erlynwyr y Goron, byddwn yn erlyn pob achos lle mae digon o dystiolaeth, os ydyw gwneud hynny o fudd i'r cyhoedd ac os nad oes unrhyw ffactorau sy'n ein hatal rhag gwneud hynny.

## Hynt yr achos - gwybodaeth i ddioddefwyr

Mae manylion ynglŷn â sut y rhoddir gwybod i droseddwyr am hynt eu hachosion yn y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau.

## Hawl y Dioddefwr i Adolygiad

O ran atgyfnerthu penderfyniadau, os bydd dioddefwr yn gofyn i ni adolygu ein penderfyniad i beidio dwyn achos, neu i ddod â'r holl achosion i ben, byddwn yn edrych eto ar y penderfyniad i ganfod a ydoedd yn gywir. I gael gwybodaeth ynglŷn â sut i ofyn am adolygu penderfyniad gwelwch Ganllaw'r Dioddefwr i'w Hawl i Adolygiad.

## Cymorth

Mae'n bwysig nodi bod y mwyafrif o droseddau yn erbyn pobl hŷn yn dod â phle euog gan ddiffynyddion, gan olygu bod llai o angen i ddioddefwyr a thystion roi tystiolaeth yn y llys. Ond, pan fydd gofyn i ddioddefwyr a thystion roi tystiolaeth, rydym wedi ein hymrwymo i'w cefnogi i roi eu tystiolaeth orau.

Rydym yn cydnabod bod angen cymorth ar lawer o bobl hŷn i'w galluogi i roi tystiolaeth ac i sicrhau bod ganddynt yr un hawl i gyfiawnder. Yn fwy na dim, rydym yn cydnabod bod yn rhaid trin pobl hŷn gydag urddas beth bynnag fo eu hamgylchiadau.

Gwyddom fod y rheiny sy'n cael eu heffeithio gan droseddau yn erbyn pobl hŷn yn methu weithiau neu'n amharod weithiau i roi gwybod am y digwyddiad heb gymorth. Hyd yn oed os nad oes angen cymorth arnynt, gwyddom fod rhai pobl hŷn yn dewis peidio rhoi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiadau am eu bod yn ofni mwy o erledigaeth, am fod y troseddwr yn gyfaill neu'n aelod o'r teulu, am fod ganddynt ofnau ynglŷn â pharhau i ddibynnu ar y troseddwr neu am fod ganddynt ofn y gallent gael eu symud o'u cartref eu hunain a chael eu rhoi mewn sefydliad neu gartref gofal. Gallai pobl hŷn gael eu targedu am nad ydynt yn gallu sicrhau yr un lefel o ddiogelwch â llawer o bobl eraill neu oherwydd yr amgylchedd y maent yn byw ynddo, er enghraifft, mewn ysbyty, cartref gofal neu yn eu cartrefi eu hunain. Hyd yn oed os yw'r heddlu wedi cael gwybod am ddigwyddiadau, efallai y bydd pobl hŷn yn amharod i roi tystiolaeth am eu bod yn ofni derbyn bygythiadau os yw'r troseddwr yn cael ei h/erlyn ac efallai felly y byddent angen cymorth i wneud hynny.

Gall achwynwyr sy'n 'agored i niwed' neu sydd 'wedi eu brawychu' dderbyn cymorth drwy geisiadau i'r llys am Fesurau Arbennig. Mae Mesurau Arbennig yn gyfres o ddarpariaethau sy'n helpu tystion sy'n 'agored i niwed' ac sydd 'wedi eu brawychu' i roi eu tystiolaeth orau yn y llys ac maent yn lliniaru rhywfaint ar y straen sy'n gysylltiedig â rhoi tystiolaeth. Gall mesurau arbennig gynnwys defnyddio sgriniau yn y llys fel nad yw'r dioddefwr neu'r tyst yn gorfod gweld y diffynnydd, neu gyfle i roi tystiolaeth o ystafell wahanol yn y llys drwy gysylltiad fideo. Gall y mesurau hyn helpu i ostwng straen a phryder. Defnyddir cyfyngiadau awtomatig ar adrodd ar gyfer pobl sydd wedi dioddef trais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol eraill. Mae'n bosibl y bydd modd gosod cyfyngiadau mewn perthynas ag adrodd i'r heddlu dan amgylchiadau eraill hefyd, os bydd meini prawf penodol wedi eu cyflawni, er mwyn diogelu hunaniaeth yr achwynydd.

Rydym wedi cyhoeddi Canllawiau Cymorth i bobl anabl sydd wedi dioddef trosedd a phobl anabl sydd wedi bod yn dystion i drosedd. Er bod llawer o bobl hŷn heb unrhyw namau corfforol neu feddyliol, efallai y bydd y canllaw yma'n ddefnyddiol beth bynnag ac mae'n disgrifio'r ystod o gefnogaeth sydd ar gael i bobl anabl sy'n dioddef troseddau, gan Wasanaeth Erlyn y Goron, yr heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill.Nod y Canllaw yw cefnogi dioddefwyr a thystion i roi eu tystiolaeth orau.

Mae rhagor o wybodaeth yn yr adran Dioddefwyr a Thystion ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron.

**Cwestiwn 4**

A yw'r canllawiau polisi'n rhoi adlewyrchiad cywir o'r rhwystrau i gyfiawnder y gall pobl hŷn eu wynebu yn ogystal â'r gefnogaeth y gellir ei chyflwyno i leihau'r rhwystrau yma?

## Y ddyletswydd gydraddoldeb

Rydym yn awdurdod cyhoeddus i bwrpasau deddfwriaeth cydraddoldeb. Mae'r polisi hwn a'n canllawiau cyfreithiol cysylltiedig, yn rhan allweddol o'n hymdrechion i gyflawni ein goblygiadau o dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth ar sail oedran ac i hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da.

## Gweithio gyda rhanddeiliaid

Rydym yn gweithio'n lleol ac yn genedlaethol gyda'r heddlu a gyda phartneriaid eraill sydd â rôl mewn ymdrin â throseddau yn erbyn pobl hŷn, yn ogystal â gydag unigolion, grwpiau cymunedol ac academyddion sydd â phrofiad ac arbenigedd mewn perthynas â throseddau o'r fath. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn gallu adnewyddu ein dealltwriaeth o natur troseddau yn erbyn pobl hŷn yn barhaus ac yn gallu gwella ein hymateb iddynt.

## Monitro a gweithredu

Byddwn yn monitro ein perfformiad drwy ein strwythurau i lywodraethu troseddau casineb. Byddwn hefyd yn derbyn adborth am ein perfformiad drwy ein panelau lleol a chenedlaethol sy'n craffu ar achosion, penderfyniadau a pholisïau Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol ar Droseddau Casineb yn darparu atebolrwydd clir am ein perfformiad mewn perthynas â throseddau yn erbyn pobl hŷn.

Dylid nodi mai dim ond gwaith Gwasanaeth Erlyn y Goron y gall Gwasanaeth Erlyn y Goron ei fonitro.

## Tudalen am Droseddau Casineb ar y We

Rydym wedi creu tudalen am droseddau casineb ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron, sy'n cynnwys yr wybodaeth ganlynol am droseddau yn erbyn pobl hŷn:

- Cyd-destun a nodweddion troseddau yn erbyn pobl hŷn
- Pa mor gymwys, dibynadwy a chredadwy yw'r tystion
- Beth sy'n digwydd os bydd dioddefwr yn tynnu'n ôl neu os nad yw bellach eisiau rhoi tystiolaeth
- Dedfrydu
- Gweithredu polisi Gwasanaeth Erlyn y Goron

**Cwestiwn 5**

Oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach am ganllawiau polisi Gwasanaeth Erlyn y Goron ar erlyn troseddau yn erbyn pobl hŷn?